# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 19.11.07

**Yn bresennol:** W. Gareth Roberts (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** John R. Jones, Bill Lovelock, Dewi Llewelyn, Ieuan Roberts, Gwilym O. Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) a Barbara Owen, (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Tomos Evans, Evie Morgan Jones a W. Tudor Owen

Ar ddechrau'r cyfarfod adroddodd y Cadeirydd ar drefn newydd a fabwysiadwyd o hyn ymlaen lle na fydd cyfreithiwr y Cyngor yn bresennol yng nghyfarfodydd o'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog, ond yn hytrach y bydd aelod o'r tim cyfreithiol ar ben arall y ffôn trwy gydol y cyfarfod i roi cyngor pe byddai'r angen.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Medi 2007 fel rhai cywir.

## 2. FFIOEDD SEFYDLIADAU RHYW

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yn manylu ar y ffioedd Sefydliadau Rhyw ar gyfer 2007/08.

Adroddwyd ar ddiweddariad i'r penderfyniad a wnaethpwyd yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Medi eleni pan benodwyd ffioedd ar gyfer Sefydliadau Rhyw. Ar y pryd, ni thrafodwyd ffigwr ar gyfer adnewyddu ffi sydd eisoes mewn bodolaeth.

Mae'n ofynnol i sefydliadau wneud cais yn flynyddol i adnewyddu ffi, ac argymhellir gosod ffigwr o £1,450 ar gyfer unrhyw adnewyddiad.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau nododd y Rheolwr Trwyddedu:-

i) bod amrywiaeth eang yn y swm a benodir ar gyfer adnewyddu'r ffi gan Gynghorau eraill yn y wlad.

ii) y penderfynwyd rhoi ad-daliad mewn achosion aflwyddiannus oherwydd nad oes angen y dilyniant gweinyddol a wneir o ganlyniad i gais a gymeradwywyd.

**PENDERFYNWYD bod y ffi adnewyddu trwydded am Sefydliad Rhyw yn cael ei osod ar lefel o £1,450 ar gyfer 2007/08**

## 3. DIDDYMU EITHRIAD AM DRWYDDED HURIO PREIFAT

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yn adrodd ar gymal o'r Ddeddf Diogelwch Ffyrdd 2006 sydd ag oblygiadau i drwyddedau Hurio Preifat.

Yn bresennol mae eithriad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, cymal 75(i)(b), sydd yn caniatau i gerbyd gael ei ddefnyddio am fwy na 7 diwrnod o dan gytundeb, i beidio bod gyda'r angen i fod yn drwyddedig fel cerbyd Hurio Preifat.

Mae cymal 53 o Ddeddf Diogelwch Ffyrdd 2006 yn diddymu'r hawl yma a daw i rym ym mis Ionawr 2008.

Caiff hyn effaith ar rai, er enghraifft, sydd yn cario plant i'r ysgol trwy gytundeb ag adain Addysg y Cyngor, ac nad oes angen i'w cerbydau fod yn drwyddedig. O hyn allan, bydd angen i'r gweithredwyr hyn osod plat tu fewn i'r cerbyd ar y ffenestr flaen, ond ni fydd angen platiau tu allan i'r ceir. Bydd hyn yn caniatau i wneud gwaith o dan gytundeb ond dim gwaith hurio preifat arall. Yn ogystal â hyn, ni chaniateir i neb yrru'r cerbyd heblaw am y sawl sydd a'u henw ar y drwydded. I adlewyrchu hyn, argymhellir codi ffi o £40 yr un am drwydded gweithredwr a thrwydded cerbyd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, cadarnhaodd y Rheolwr Trwyddedu bod deilydd y drwydded yn gyfrifol am drefnu archwiliad o'r cerbyd bob chwe mis.

**PENDERFYNWYD:**

a) **bod angen i weithredwyr sy'n cario teithwyr trwy gytundeb megis â'r adain Addysg i osod plat tu fewn i'r cerbyd ar y ffenestr flaen**
b) **nad oes angen arddangos platiau tu allan i'r ceir hyn**
c) **bod ffi o £40 yn cael ei godi am drwydded gwethredwr a ffi o £40 am drwydded y cerbyd**

## 4. ADOLYGIAD O'R POLISI TRWYDDEDU – DEDDF TRWYDDEDU 2003

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yn adolygu'r Polisi Trwyddedu ac yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa.

Yn y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn ar 17 Medi 2007 cytunwyd i roi cyfle i'r Cynghorau Cymuned, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r awdurdodau cyfrifol perthnasol eraill o fewn y Cyngor i ymateb i'r argymhellion. Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu iddo dderbyn rhai ymatebion yn cefnogi'r argymhellion. Nodwyd bod llythyr oddi wrth y Gwasanaeth Tân yn rhoi manylion am reoliadau newydd a fabwysiadwyd yn 2006 ac sydd i'w cynnwys yn y Polisi.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau a argymhellwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2007, ynghŷd ag ymateb y Gwasanaeth Tân a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn, a'u cyflwyno i ystyriaeth y Cyngor i'w mabwysiadu'n ffurfiol yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr, 2007**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30a.m. a daeth i ben am 10.55a.m.